CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU: Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD

ADRODDIAD 01-2003 - A gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Medi 2003 yn unol â Rheol Sefydlog 16.6

CWYN YN ERBYN ALUN CAIRNS AC

Diben a Chwmpas yr Adroddiad

1. Dyma adroddiad i'r Cynulliad gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o dan Reol Sefydlog 16.6 ynghylch cwyn y mae wedi ei ystyried yn erbyn Alun Cairns AC. Roedd y gŵyn, gan y Cynghorydd Jeff Jones, yn ymwneud ag achosion honedig o dramgwyddo'r Cod Safonau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, a fabwysiadodd y Cynulliad ar 18 Mai 1999. Roedd y gŵyn yn ymwneud yn benodol â defnydd amhriodol o adnoddau'r Cynulliad a chamddefnyddio "swydd" Aelod Cynulliad.

Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

2. Mae Rheol Sefydlog 16(ii) yn darparu bod y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn:

> *ymchwilio i unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Llywydd fod Aelod heb gydymffurfio ag unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynghylch safonau ymddygiad yr Aelodau, yn adrodd ar y gŵyn honno ac, os bydd yn briodol, yn argymell y camau y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r gŵyn...*

Yn Atodiad C, ceir dyfyniad o'r Rheolau Sefydlog yn nodi cylch gorchwyl llawn y Pwyllgor. Ceir rhestr o aelodau'r Pwyllgor yn Atodiad B.

Y Gŵyn

3. Cyfeiriwyd y gŵyn at y Pwyllgor gan y Llywydd, a oedd yn gweithredu ar gyngor y Cynghorydd Annibynnol ar Safonau, Mr Richard Penn. Roedd y gŵyn yn cynnwys pedwar honiad penodol. Mae manylion yr honiadau wedi'u nodi yn adroddiad Mr Penn i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a geir yn Atodiad A.

Crynodeb o Ymchwiliad y Pwyllgor

4. Cyflwynwyd y gŵyn i'r Llywydd ar 3 Mawrth 2003, a chafodd ei thrin yn unol â'r weithdrefn a gymeradwyodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar 6 Gorffennaf 2000 yn dilyn ymgynghoriad â holl Aelodau'r Cynulliad.

5. Gwahoddodd y Llywydd y Cynghorydd Annibynnol ar Safonau i gynnal ymchwiliad cychwynnol er mwyn penderfynu a ddylai'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ystyried y gŵyn. Daeth y Cynghorydd Annibynnol i'r casgliad nad oedd tystiolaeth i gefnogi dau o'r honiadau yn y gŵyn, ac y dylid eu gwrthod. Serch hynny, dywedodd fod yr honiadau a oedd yn weddill yn faterion y dylai'r Pwyllgor eu hystyried, er mwyn penderfynu a dramgwyddwyd y Cod.

6. Yng ngoleuni adroddiad yr ymchwiliad cychwynnol, gwrthododd y Llywydd ddau o'r honiadau, a chyfeiriodd y ddau a oedd yn weddill at y Pwyllgor. Yn ogystal, gofynnodd i'r Cynghorydd Annibynnol gynnal ymchwiliad ffurfiol er mwyn casglu ffeithiau'r achos ar gyfer y Pwyllgor.

7. Adroddodd y Cynghorydd Annibynnol i'r Pwyllgor ar 11 Gorffennaf 2003. Anfonwyd copi o'i adroddiad hefyd at Mr Cairns. Cyfarfu'r Pwyllgor ar 1 Medi 2003 i ystyried y gŵyn. Cyfarfu'r Pwyllgor yn breifat, yn unol â Rheol Sefydlog 16.5. Rhoddodd Mr Cairns sylwadau llafar ac ysgrifenedig i'r Pwyllgor, ac atebodd gwestiynau gan yr aelodau. Mae'r Pwyllgor yn dymuno cofnodi y cydweithredodd Mr Cairns yn llawn trwy gydol y broses, ac y mae'n diolch iddo am hynny.

Casgliad y Pwyllgor

8. Mae'r Pwyllgor wedi nodi adroddiad y Cynghorydd Annibynnol a'r sylwadau a wnaeth Mr Cairns. Ystyriodd y Pwyllgor ddau achos posib o dramgwyddo'r Cod Safonau:

    i. a dorrodd Mr Cairns y rheolau gweinyddol ar "Ddefnyddio Deunydd Ysgrifennu ac Adnoddau Cynulliad Cenedlaethol Cymru", ac wrth wneud hynny a dramgwyddodd baragraff 5 o'r adran "Ymarfer yr Egwyddorion" yn y Cod Safonau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

    ii. trwy geisio newid cyfeiriad post cofrestredig ei gartref preifat, a wnaeth Mr Cairns gamddefnyddio ei "swydd" mewn modd y gellid ystyried ei fod yn tramgwyddo egwyddor y Cod o "Anhunanoldeb" a pharagraff 1 o'r adran "Ymarfer yr Egwyddorion".

9. Ar fater yr achos posib cyntaf o dorri'r rheolau, daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod cartrefi Aelodau'r Cynulliad yn fannau gwaith dilys. Nododd y Pwyllgor fod Mr Cairns wedi profi problemau yn derbyn post yn ei gartref ar nifer o achlysuron, yn sgîl cymhlethdod ynghylch ei gyfeiriad. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei bod yn gwbl briodol i Mr Cairns ddefnyddio papur pennawd y Cynulliad er mwyn ceisio datrys cymhlethdod ynghylch cyfeiriad man sydd i bob pwrpas yn un o'i fannau gwaith.

10. Yn unfrydol, gwrthododd y Pwyllgor yr achos posib cyntaf o dorri'r rheolau.

11. O ran yr ail achos posib o dorri'r rheolau, daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oedd Mr Cairns wedi defnyddio "swydd" Aelod Cynulliad yn amhriodol wrth iddo geisio newid ei gyfeiriad am resymau dilys a oedd yn gysylltiedig â'i waith.

12. Yn unfrydol, gwrthododd y Pwyllgor yr ail achos posib o dorri'r rheolau.

Anhysbysrwydd

13. Bwriedir i'r weithdrefn gwyno fod mor ddienw â phosib er mwyn amddiffyn pawb sy'n cymryd rhan ynddi. O dan adolygiad "Woodhouse" o drefniadau Safonau Ymddygiad y Cynulliad, mae'r Pwyllgor wrthi'n ystyried a ddylai'r drefn hon barhau. Serch hynny, pan y caiff cwyn ei gwrthod o dan y trefniadau presennol, ni fydd adroddiad y Pwyllgor fel arfer yn cynnwys enwau.

14. Serch hynny, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu na ddylid cadw'r adroddiad yn ddienw, er nad oedd Mr Cairns wedi tramgwyddo'r Cod Safonau. Yn amgylchiadau arbennig yr achos hwn, a oedd wedi denu cryn sylw a lle roedd yr achwynydd wedi adrodd ei gŵyn yn gyhoeddus, daeth y Pwyllgor i'r casgliad y

byddai'n decach i Mr Cairns petai canfyddiadau'r Pwyllgor yn cael eu gwneud yn gyhoeddus.

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
8 Medi 2003

ATODIAD A

Cyfeirnod C029-03

Adroddiad i Bwyllgor Safonau Ymddygiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan y Cynghorydd Annibynnol ar Safonau yn dilyn ei ymchwiliad i'r gŵyn bosib gan y Cynghorydd Jeff Jones, Arweinydd Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr, yn erbyn Alun Cairns AC.

1. **Cefndir y gŵyn**

1.1 Ysgrifennodd y Cynghorydd Jeff Jones, Arweinydd Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr, at y Llywydd ar 3 Mawrth 2003 er mwyn:

"*cwyno'n ffurfiol am ymddygiad Alun Cairns AC yng nghyd-destun nifer o faterion*".

1.2 Roedd ei gw^yn yn cynnwys pedwar honiad penodol bod Alun Cairns:

Honiad (i) **"*wedi defnyddio ei swydd er mwyn ceisio newid ei gyfeiriad*".**

Honiad (ii) **"*wedi hawlio ei fod yn gweithredu fel unigolyn ond* (wedi defnyddio) *papur pennawd y Cynulliad i ddilyn trywydd mater".***

Honiad (iii) **wedi defnyddio papur pennawd y Cynulliad i ysgrifennu at Brif Weithredwr Undeb Rygbi Cymru ynghylch cais cynllunio (am Academi Genedlaethol Rygbi Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr), heb nodi ei fod yn byw gerllaw'r safle ac felly bod ganddo "*fudd personol yn sicrhau na fyddai'r cais cynllunio yn mynd yn ei flaen".***

Honiad (iv) **"*yn fwriadol wedi camddehongli dogfennau oedd wedi'u dwyn er mwyn pardduo fy enw* (**enw'r Cynghorydd Jones*)".***

1.3 Anfonwyd y gŵyn a'r dogfennau perthnasol ataf gan yr Ysgrifenyddiaeth ar 5 Mawrth 2003, a gofynnwyd imi gynnal Ymchwiliad Cychwynnol i'r gŵyn bosib hon.

1.4 Cwblheais fy Ymchwiliad Cychwynnol ddiwedd mis Ebrill 2003, a'i anfon i'r Ysgrifenyddiaeth iddynt hwythau ei anfon at y Llywydd. Wedyn, cyfeiriodd y Llywydd y gŵyn at y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a gofynnwyd imi gynnal Ymchwiliad Llawn ac adrodd ar fy nghanfyddiadau i'r Pwyllgor. Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion y cwynion a wnaeth y Cynghorydd Jones yn erbyn Alun Cairns AC, fy ymchwiliad i a'm canfyddiadau, fel y gall y Pwyllgor eu hystyried.

2. **Y gŵyn**

2.1 Cwynodd y Cynghorydd Jones am nifer o weithredoedd honedig Alun Cairns:

Honiad (i) Honnodd fod Alun Cairns wedi defnyddio ei 'swydd' (hynny yw, ei statws fel Aelod Cynulliad) er mwyn ceisio newid cyfeiriad ei gartref preifat. Cyfeiriad Alun Cairns oedd 'The Patch, Ewenny Road, Pen-y-bont ar Ogwr', a'r honiad yw iddo geisio dileu 'Ewenny Road' o'i gyfeiriad trwy ysgrifennu'n uniongyrchol ac amhriodol at Ganolfan Rheoli Cyfeiriadau y Post Brenhinol yn yr Amwythig, yn hytrach na chysylltu â'r awdurdod lleol (yn yr achos hwn, Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr) am ei 'gefnogaeth'. Yn ôl y Cynghorydd Jones, cytunodd Canolfan Reoli Cyfeiriadau y Post Brenhinol i newid y cyfeiriad heb ymgynghori o gwbl â'r Cyngor Sir. Mae'r Cynghorydd Jones yn honni i Alun Cairns wedyn geisio newid ei gyfeiriad ar y Gofrestr Etholwyr, a'i fod wedi 'bygwth' adrodd y swyddogion benywaidd oedd yn delio â'i gais i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol os na fyddent yn gwneud hynny.

Honiad (ii) Honnodd fod Alun Cairns wedi hawlio ei fod yn gweithredu fel unigolyn preifat wrth ddilyn trywydd y mater hwn, ond ei fod wedi defnyddio papur pennawd y Cynulliad, mwy na thebyg gan dorri'r rheolau gweinyddol ar ddefnyddio adnoddau'r Cynulliad.

Honiad (iii) Honnodd fod Alun Cairns wedi ysgrifennu at Brif Weithredwr Undeb Rygbi Cymru er mwyn ceisio dwyn perswâd arno i ollwng y cynnig i leoli Academi Genedlaethol Rygbi Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Cynghorydd Jones yn honni bod Alun Cairns wedi rhoi'r argraff y byddai'n gallu helpu Undeb Rygbi Cymru petai'r Undeb yn penderfynu codi'r cyflesuter rywle arall yn lle hynny, ac (unwaith eto, mwy na thebyg gan dorri'r rheolau ar ddefnyddio adnoddau'r Cynulliad) mae ei lythyr wedi'i ysgrifennu at bapur pennawd y Cynulliad. Mae hefyd yn honni na soniodd Alun Cairns wrth Brif Weithredwr Undeb Rygbi Cymru ei fod yn byw gerllaw'r safle ac o ganlyniad i hynny bod ganddo fudd personol mewn sicrhau na fyddai'r cais cynllunio ar gyfer y safle yn llwyddo.

Honiad (iv) Honnodd fod Alun Cairns, mewn sylwadau a wnaeth mewn papur newydd lleol (The Glamorgan

Gazette), yn fwriadol wedi camddehongli cynnwys dogfennau a oedd wedi'u 'dwyn' o Adran Gynllunio'r Cyngor. Dywed fod Alun Cairns wedi ysgrifennu mewn erthygl:

> *“ymddengys bod y dogfennau yn dangos y rhoddwyd pwysau ar y swyddogion cynllunio* (o ran y cais cynllunio am Academi Genedlaethol Rygbi Cymru)";

ac nad yw'r dogfennau'n dangos dim o'r fath. Disgrifiodd y Cynghorydd Jones hyn fel ymgais fwriadol ar ran Alun Cairns:

> *"i bardduo fy enw* (hynny yw, enw'r Cynghorydd Jones)*."*

2.2 Crynhodd y Cynghorydd Jones ei gŵyn ar ddiwedd ei lythyr dyddiedig 3 Mawrth 2003 at y Llywydd trwy ddweud:

> *"Trwy ei weithredoedd mae Mr Cairns yn amlwg wedi dwyn anfri ar y Cynulliad, ac y mae angen ymchwiliad llawn."*

2.3 Ar 21 Mawrth 2003, cyhoeddodd y Western Mail erthygl lawn ar yr honiadau gan y Cynghorydd Jones am Alun Cairns, yn dwyn y pennawd:

> **AM investigated in ‘upmarket address storm’**

Roedd yr erthygl, a oedd yn cynnwys ffotograff lliw o'r eiddo dan sylw, yn dyfynnu'n helaeth ac air am air o'r llythyr dyddiedig 3 Mawrth 2003 oddi wrth y Cynghorydd Jones at y Llywydd, gan orffen gydag Alun Cairns yn dweud ei fod yn diystyrru'r gŵyn fel un "ddisynnwyr".

3. Fy ymchwiliad

3.1 Cefais gyfweliad gydag Alun Cairns ar 1 Ebrill 2003, ac unwaith eto ar 26 Mehefin 2003, ac ar y ddau achlysur trafodais honiadau'r Cynghorydd Jones yn fanwl gydag ef. Roedd yn gwybod am yr honiadau trwy'r erthygl yn y Western Mail, ac roeddwn hefyd wedi anfon copi iddo o lythyr y Cynghorydd Jones dyddiedig 3 Mawrth 2003 at y Llywydd, ynghyd â chopïau o'r dogfennau perthnasol. Roedd Alun Cairns wedi darparu copïau o ragor o ddogfennau cyn ein cyfarfod, a daeth a chopïau o ddogfennau eraill gydag ef i'r cyfarfod. Roedd y rhain yn cynnwys cynllun o'r ardal o gwmpas ei eiddo yn Ewenni, sydd wedi'i amgáu fel Atodiad i'r adroddiad hwn.

3.2 Dyma ymateb Alun Cairns i mi ar bob un o'r honiadau a wnaeth y Cynghorydd Jones:

Honiad (i) **ei fod wedi "*defnyddio ei swydd er mwyn ceisio newid ei gyfeiriad*"**

a

Honiad (ii) ***ei fod wedi "hawlio ei fod yn gweithredu fel unigolyn ond (wedi defnyddio) papur pennawd y Cynulliad i ddilyn trywydd y mater".***

Dywedodd Alun Cairns ei fod wedi derbyn ffurflen y Gofrestr Etholwyr oddi wrth Gyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr gyda chyfeiriad nad oedd yn cynnwys yr elfen 'Ewenni', sydd yn ei gyfeiriad post cofrestredig. Galwodd y Swyddfa Cofrestru Etholiadol er mwyn dweud wrthynt am yr anghysondeb hwn, a'u hysbysu ei fod eisiau iddynt gywiro'r sefyllfa. Dywedwyd wrtho ei fod yn byw yn Ewenny Road, nid yn Ewenni. Galwodd Swyddfa'r Post er mwyn gwirio ei gyfeiriad cofrestredig, a dywedwyd wrtho mai 'Ewenni' ydoedd. Rhyw fis wedi hynny, galwodd y Swyddfa Cofrestru Etholiadol unwaith eto er mwyn dilyn hynt ei gais i newid ei gyfeiriad ar y Gofrestr Etholwyr i 'Ewenni', a dywedwyd wrtho nad oedd hawl ganddynt i siarad ag ef yn uniongyrchol (mae'n debyg y ceir rheol leol bod yn rhaid delio ag Aelodau'r Cynulliad trwy Arweinydd y Cyngor yn unig). Dywedodd wrthyf ei fod wedi esbonio mai galw fel dinesydd preifat yr ydoedd, nid fel Aelod Cynulliad, ond fe'i hysbyswyd bod angen awdurdod gan Gabinet y Cyngor ar y swyddog cyn trafod y mater ag ef. Ffoniodd Alun Cairns unwaith eto, ac eto dywedodd y swyddog wrtho nad oedd ganddi hawl i siarad ag ef. Dywedodd Alun Cairns ei fod wedyn wedi ffonio Swyddfa'r Prif Weithredwr yng Nghyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr a dweud ei fod yn bwriadu codi'r mater gyda'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol. Gwadodd ei fod wedi 'bygwth' swyddog y Cyngor nac wedi bod yn 'ymosodol' tuag ati.

Derbyniodd alwad ffôn oddi wrth Swyddfa Cofrestru Etholiadol Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr o fewn yr awr, a dywedwyd wrtho fod y ddeddfwriaeth berthnasol wedi'i gwirio, ac mai'r weithdrefn gywir oedd defnyddio'r cyfeiriad post cofrestredig ar y Gofrestr Etholiadol. Dywedodd ei fod yn fodlon â hynny, a gofynnodd i'r swyddog ddileu'r elfen 'Ewenny Road' o'i gyfeiriad ar y Gofrestr Etholiadol. Fe'i hysbyswyd mai dim ond trwy Ganolfan Rheoli Cyfeiriadau y Post Brenhinol y gellid gwneud hyn, a rhoddodd swyddog y Cyngor fanylion y swyddfa yn yr Amwythig iddo.

Yn dilyn hynny, ysgrifennwyd llythyr o'i swyddfa ym Mae Caerdydd at Ganolfan Rheoli Cyfeiriadau y Post Brenhinol yn yr Amwythig ar 12 Rhegfyr 2002 ar bapur pennawd y Cynulliad. Yn ein cyfarfod cyntaf ar 1 Ebrill 2003, dywedodd wrthyf ei fod yn gwbl ymwybodol o'r rheolau gweinyddol ar ddefnyddio adnoddau'r Cynulliad, sy'n caniatáu 'ychydig o ddefnydd personol' o adnoddau fel papur pennawd ac amlenni, ac yn ei farn ef nid oedd wedi defnyddio ond 'ychydig' o adnoddau'r Cynulliad ar y mater hwn. Pwysleisiodd ei fod yn glir yn ei lythyr bod y mater hwn yn ymwneud â'i eiddo preswyl ei hun, ac nad oedd yn honni ysgrifennu ar ran etholwr. Roedd y Post Brenhinol wedi cadarnhau gyda'r swyddfa

ddosbarthu leol y cafwyd problemau yn dosbarthu post i'w gyfeiriad cartref.

Yn ein ail gyfarfod, dywedodd wrthyf ei fod wedi ysgrifennu llythyr o'r blaen at y Post Brenhinol ar ran etholwr ynghylch ei broblemau yntau, ond gofynnodd imi pwy arall allai gynrychioli ei fuddiannau fel 'etholwr' yn ei achos ef. Awgrymais y gallai fod wedi gofyn i Aelod Cynulliad arall ysgrifennu ar ei ran, ond dywedodd nad oedd hynny'n ymarferol. Yn ogystal, dywedodd wrthyf mai ei reswm dros ddefnyddio papur pennawd y Cynulliad ar gyfer ei lythyr dyddiedig 12 Rhagfyr 2002 i Ganolfan Rheoli Cyfeiriadau'r Post Brenhinol yn yr Amwythig oedd ei fod yn gyfleus. Roedd yn un o nifer o lythyrau ar dâp yr oedd ei Swyddfa wedi delio â hwy y diwrnod hwnnw yn y prysurdeb cyn diwedd y sesiwn a'r Nadolig. Dywedodd nad oedd ganddo unrhyw fwriad i ddefnyddio ei statws fel Aelod Cynulliad i roi hwb i'w achos dros newid ei gyfeiriad cartref. Yn olaf, tynnodd fy sylw at y ffaith fod Aelodau'r Cynulliad yn derbyn llawer o bost ynghylch busnes y Cynulliad yn eu cyfeiriadau cartref, oddi wrth y Cynulliad ei hun yn ogystal ag eraill. Gan hynny, mae hyn yn golygu bod cyfeiriadau cartrefi Aelodau'r Cynulliad yn 'gyfeiriadau busnes'. Roedd yn ystyried bod hyn yn cyfiawnhau'r ffaith ei fod wedi ysgrifennu fel Aelod Cynulliad i ddatrys y problemau yr oedd yn derbyn post yn ei gyfeiriad cartref/busnes, oherwydd bod hyn yn achosi problemau diangen ac annerbyniol i'w etholwyr.

Anfonwyd yr ymateb oddi wrth Canolfan Reoli Cyfeiriadau'r Post Brenhinol, dyddiedig 23 Rhagfyr, i'w gyfeiriad cartref (heb unrhyw gyfeiriad at ei swydd fel AC). Yn yr ymateb, dywedwyd wrtho y byddai ei gyfeiriad cofrestredig yn cael ei ddiwygio'n briodol, ond y byddai hyn yn golygu newid ei god post.

Anfonodd Alun Cairns gopi o'r llythyr oddi wrth Ganolfan Rheoli Cyfeiriadau'r Post Brenhinol i'r Swyddfa Cofrestru Etholiadol ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar 28 Rhagfyr 2002, i'w hysbysu am y newid yn ei gyfeiriad cofrestredig. Derbyniodd ymateb gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol ar 7 Ionawr 2003 yn dweud y byddid yn '*prysuro* (sic) â'i gais maes o law'. Yn dilyn hynny, ysgrifennodd y Cynghorydd Jones i Ganolfan Rheoli Cyfeiriadau y Post Brenhinol ar 4 Chwefror 2003, yn gofyn am esboniad o'r penderfyniad i ddiwygio cyfeiriad eiddo Alun Cairns. Roedd yr ymateb dyddiedig 6 Chwefror 2003 yn esbonio'r rhesymau am y newid, ond hefyd yn ymddiheuro na chysylltwyd yn briodol â'r awdurdod lleol i gadarnhau rhai ffeithiau yn yr achos.

I Alun Cairns, dyna oedd diwedd y mater nes y daeth i wybod am y gŵyn a wnaeth y Cynghorydd Jones. Pwysleisiodd ei fod yn ymwybodol o'r rheolau gweinyddol ar ddefnyddio adnoddau'r Cynulliad. Gwrthwynebodd yn gryf unrhyw awgrym ei fod wedi defnyddio ei 'swydd' mewn unrhyw ffordd i sicrhau ei amcan, ac nid yw'n ystyried ei fod wedi torri'r rheolau ar ddefnyddio adnoddau'r Cynulliad, yng ngoleuni eu darpariaethau de minimis. Mae hefyd yn gwadu 'bygwth' staff y Swyddfa Cofrestru Etholiadol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a

dangosodd gopi o'r nodyn ffeil a wnaeth y Cynorthwy-ydd Gwasanaethau Etholiadol ar adeg ei sgwrs ffôn â hi sy'n nodi:

> *"Roedd yn gwrtais ond yn ddyfal wrth geisio esbonio ei gais. Dywedodd y byddai'n rhaid iddo gysylltu â'r Ombwdsmon pe na byddai'r mater yn cael ei drin."*

Yn olaf, dywedodd wrthyf fod y rheolau lleol ar y berthynas rhwng Aelodau'r Cynulliad a Chyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyswllt gael ei wneud trwy Swyddfa Arweinydd Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr (hyd yn oed pan fo'r Aelod yn gweithredu fel dinesydd preifat). Dywedodd fod hyn yn gwneud materion syml fel y mater dan sylw yn orgymhleth ac yn hirwyntog.

Honiad (iii) **ei fod wedi defnyddio papur pennawd y Cynulliad i ysgrifennu at Brif Weithredwr Undeb Rygbi Cymru ynghylch cais cynllunio (am Academi Genedlaethol Rygbi Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr), heb nodi ei fod yn byw gerllaw'r safle ac felly bod ganddo "*fudd personol yn sicrhau na fyddai'r cais cynllunio yn mynd yn ei flaen".***

Esboniodd Alun Cairns gefndir y datblygiad arfaethedig yn Island Farm ym Mhen-y-bont ar Ogwr wrthyf, a'i wrthwynebiad personol i'r datblygiad o'r cychwyn cyntaf. Cyfaddefodd fod ganddo fudd personol yn y mater gan y byddai'r datblygiad arfaethedig yn effeithio'n anuniongyrchol ar ei eiddo, ond honnodd hefyd ei fod bob amser wedi tynnu sylw at ei fudd personol yn fwriadol, fel y gallai neb amau ei sefyllfa o ran y mater. Yn ogystal, dywedodd fod ei fuddiant wedi'i ddatgan a'i gofnodi ar bob achlysur y mae'r Cynulliad wedi trafod y mater. Rwyf wedi gwirio hyn, ac rwyf o'r farn ei fod yn wir.

Manylodd ar gefndir y ceisiadau cynllunio, gan gynnwys y rhai gwreiddiol a diwygiedig, a dywedodd wrthyf am y gwrthwynebiad trawsbleidiol a fu gan Aelodau'r Cynulliad i'r cais diwygiedig a gyflwynodd y datblygwyr yn ystod hydref 2003. Roedd y cais hwn yn cynnwys cynnig i ddefnyddio 30 erw a'r safle 120 erw ar gyfer Academi Rygbi Undeb Rygbi Cymru. Wedi i'r cais cynllunio hwn gael ei wrthod gan Bwyllgor Rheoli Datblygu Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr, gwnaeth Arweinydd Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr ddatganiad i'r perwyl y dylai'r Cyngor llawn benderfynu ar bob cais cynllunio o hynny allan. Penderfynodd Alun Cairns ysgrifennu at Brif Weithredwr Undeb Rygbi Cymru i ofyn am gyfarfod i drafod y mater. Gwnaeth hynny ar 20 Ionawr 2003, gan ysgrifennu yn 'swyddogol' ar bapur pennawd y Cynulliad fel Aelod Cynulliad, ac nid fel unigolyn preifat. Ni dderbyniodd ymateb i'r llythyr hwnnw, ac ysgrifennodd unwaith eto i'r un perwyl ar 28 Chwefror 2003 er mwyn ailofyn am gyfarfod. Nid ydyw wedi derbyn ymateb i'r naill lythyr na'r llall.

Dywedodd Alun Cairns wrthyf ei bod yn hysbys ledled De Cymru, gan gynnwys i Undeb Rygbi Cymru, ei fod yn un o brif wrthwynebwyr y

cynigion i ddatblygu'r safle hwn, gan gynnwys y cynnig i sefydlu Academi Rygbi Undeb Rygbi Cymru yno. Yn ogystal, dywedodd wrthyf ei fod bob amser wedi datgan ei fudd personol yn y mater, ond nad oedd o'r farn bod angen ddatgan hynny yn ei lythyrau at David Moffett, yn enwedig gan ei fod yn honni bod Mr Moffett yn gwbl ymwybodol o'i fudd personol. Mae'n gwrthwynebu'n gryf unrhyw honiad ei fod wedi tramgwyddo Cod Safonau Aelodau'r Cynulliad ar y mater hwn.

Honiad (iv) ***"ei fod yn fwriadol wedi camddehongli dogfennau oedd wedi'u dwyn er mwyn pardduo fy enw (*enw'r Cynghorydd Jones*)."***

Mae'r honiad hwn yn ymwneud ag erthygl yn y Glamorgan Gazette, papur lleol Pen-y-bont ar Ogwr, ar 20 Chwefror 2003 ynghylch datblygiad Island Farm. Roedd yr erthygl yn adrodd bod Grŵp Gweithredu Island Farm yn honni y gallai Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Jones, fod wedi tramgwyddo Cod Ymddygiad y Cyngor trwy ddwyn pwysau ar swyddogion y cyngor i gefnogi datblygiad Island Farm. Dywed Alun Cairns yn yr erthygl:

> *"Ymddengys bod y dogfennau yn dangos y rhoddwyd pwysau ar y swyddogion cynllunio."*

Y 'dogfennau' y cyfeirir atynt yma yw memorandwm mewnol cyfrinachol, dyddiedig 21 Tachwedd 2002, oddi wrth Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Chynllunio y Cyngor at ei ddau Gyfarwyddwr Cynorthwyol (dros Gynllunio a thros Drafnidiaeth/Peirianneg) a oedd yn dweud:

> "*Cefais… fy atgoffa* (gan yr Arweinydd*) bod angen ystyried y gallai'r prosiect hwn ddod â chryn fri i'r Bwrdeistref Sirol, petai'n llwyddo i ddatrys yr holl ystyriaethau cynllunio/priffyrdd. Ceir disgwyliad cyffredinol y bydd swyddogion o'r ddau faes yn ceisio sicrhau atebion i'r materion sydd dan sylw ar hyn o bryd."*

a llythyr oddi wrth y Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Cynllunio), dyddiedig yr un diwrnod, at yr Ymgynghorwyr ar ran datblygwyr Island Farm, a oedd yn dweud:

> *"Roeddwn wedi bwriadu adrodd y cais hwn i'r Pwyllgor Datblygu Rheoli… ond gydag argymhelliad anffafriol."*

Mae'n debyg bod y geiriau ***'heb ei anfon'*** wedi'u hysgrifennu ar y llythyr hwn.

Honnir bod y ddwy ddogfen wedi'u 'dwyn' o'r Cyngor Sir gan gynrychiolwyr Grŵp Gweithredu Island Farm, yn yr ystyr y cymerwyd ffotograffau o'r dogfennau heb ganiatâd yn swyddfeydd y Cyngor. Mae'r heddlu yn ymchwilio i'r honiad hwn.

Gwadodd Alun Cairns yn bendant fod ganddo unrhyw ran yn y Grŵp Gweithredu, na'u gweithredoedd yn y mater hwn (er i'r Grŵp Gweithredu anfon copi o'r dogfennau ato), a dywedodd fod y papur wedi gofyn iddo roi ei sylwadau fel 'un â diddordeb yn y mater' - ac y gwnaeth hynny.

4. Crynodeb

4.1 Rwyf wedi archwilio'n llawn y gŵyn a wnaeth y Cynghorydd Jones fod Alun Cairns AC:

> *"Trwy ei weithredoedd... yn amlwg wedi dwyn anfri ar y Cynulliad, a [bod] angen ymchwiliad llawn."*

4.2 Ni allaf ganfod unrhyw dystiolaeth fod Alun Cairns wedi dwyn anfri ar y Cynulliad yn gyffredinol, ac nid oes tystiolaeth ychwaith bod ei ymddygiad tuag at staff y Gofrestr Etholwyr yng Nghyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn amhriodol mewn unrhyw ffordd.

4.3 Serch hynny, efallai bod Mr Cairns wedi torri'r rheolau gweinyddol ar ddefnyddio Deunydd Ysgrifennu ac Adnoddau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac wrth wneud hynny efallai ei fod wedi tramgwyddo paragraff 5 o'r adran "Ymarfer yr Egwyddorion" yn y Cod hwnnw, sy'n nodi:

> "*Ni chamddefnyddir unrhyw dâl neu lwfans a roddir i Aelodau at ddibenion cyhoeddus a rhaid dilyn yn ofalus y rheolau gweinyddol sy'n gymwys i daliadau a lwfansau o'r fath."*

4.4 Y gwir yw i Alun Cairns ddefnyddio papur pennawd y Cynulliad ar o leiaf dri achlysur (ac fe dynnodd fy sylw ei hun at un o'r achlysuron hyn) wrth ohebu â Chyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr ac â Chanolfan Rheoli Cyfeiriadau y Post Brenhinol yn yr Amwythig, a hynny er mwyn dilyn trywydd ei amcan o newid cyfeiriad cofrestredig ei gartref preifat ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Y mae Alun Cairns yn gywir pan ddywed fod darpariaethau Adran 1 y rheolau ar Ddefnyddio Deunydd Ysgrifennu ac Adnoddau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn caniatáu defnyddio 'ychydig' o bapur pennawd y Cynulliad ar gyfer gohebiaeth bersonol, a bod y cafeat hwn wedi dilysu ei benderfyniad i ddefnyddio papur pennawd at ei ddefnydd personol wrth geisio dilyn trywydd ei amcan. Yn ystod fy nhrafodaethau ag ef, gofynnais i Alun Cairns, yng ngoleuni cwynion blaenorol ynghylch y defnydd y mae Aelodau'r Cynulliad wedi'i wneud o adnoddau'r Cynulliad, a fyddai wedi bod yn gall i fod hyd yn oed yn fwy gofalus o ran y defnydd a wnaeth o adnoddau'r Cynulliad. Roedd yn benderfynol nad oedd wedi tramgwyddo'r Cod Safonau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad mewn unrhyw ffordd.

4.5 Penderfyniad sy'n briodol i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ei gymryd yw ai 'ychydig' o ddefnydd yw defnyddio'r fath adnoddau ar dri achlysur gwahanol.

4.6 Yn ogystal, rhaid i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ystyried a yw'r defnydd a wnaeth Alun Cairns o bapur pennawd y Cynulliad yn y mater hwn yn ddefnydd amhriodol o'i 'swydd' fel Aelod Cynulliad, ac y gwnaeth hynny er mwyn ceisio dwyn rhagor o berswâd o blaid ei gais i newid ei gyfeiriad post cofrestredig. Mae'n arwyddocaol bod y Cyngor Sir a Chanolfan Rheoli Cyfeiriadau y Post Brenhinol ill dau yn cyfeirio ato fel 'AC' neu 'Aelod Cynulliad' yn rhai o'u llythyrau, er iddo ddweud wrthyf i ei fod bob amser wedi ei gwneud yn glir ei fod yn dilyn trywydd y mater hwn fel unigolyn preifat.

4.7 Serch hynny, nid yw hyn yn ddiamwys, oherwydd, er enghraifft, nid yw Canolfan Rheoli Cyfeiriadau'r Post Brenhinol yn cyfeirio ato fel Aelod Cynulliad yn y llythyr dyddiedig 23 Rhagfyr 2003 a anfonwyd i'w gyfeiriad cartref.

5. Casgliad

5.1 Ar sail fy ymchwiliad i'r gŵyn a wnaeth y Cynghorydd Jones yn erbyn Alun Cairns AC, rwyf wedi dod i'r casgliad nad oes tystiolaeth i gefnogi dau o'r honiadau a wnaeth y Cynghorydd Jones:

> **honiad iii** - bod Alun Cairns wedi defnyddio papur pennawd y Cynulliad i ysgrifennu at Brif Weithredwr Undeb Rygbi Cymru ynghylch cais cynllunio am Academi Genedlaethol Rygbi Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr, heb nodi ei fod yn byw gerllaw'r safle ac felly bod ganddo "*fudd personol yn sicrhau na fyddai'r cais cynllunio yn mynd yn ei flaen";*
>
> a
>
> **honiad iv**– ei fod "*yn fwriadol wedi camddehongli dogfennau oedd wedi'u dwyn er mwyn pardduo fy enw (*enw'r Cynghorydd Jones*)".*

5.2 Serch hynny, rwyf hefyd yn dod i'r casgliad efallai y bu i Alun Cairns AC dramgwyddo'r Cod Safonau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad oherwydd iddo ddefnyddio ei 'swydd' yn gyffredinol (**honiad i**), ac oherwydd iddo ddefnyddio papur pennawd y Cynulliad yn benodol (**honiad ii**) er mwyn dilyn trywydd ei amcan o newid cyfeiriad post cofrestredig ei gartref preifat.

5.3 Mae'r rhain yn faterion y dylai'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad eu hystyried er mwyn iddo benderfynu a wnaeth Alun Cairns AC dramgwyddo'r Cod Safonau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Richard Penn
Y Cynghorydd Annibynnol ar Safonau

11 Gorffennaf 2003

ATODIAD B

AELODAU'R PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD

Kirsty Williams (Cadeirydd)	Brycheiniog a Sir Faesyfed	Y Democratiaid Rhyddfrydol
Jeff Cuthbert	Caerffili	Llafur
David Davies	Mynwy	Y Ceidwadwyr
Jocelyn Davies	Dwyrain De Cymru	Plaid Cymru/Party of Wales
Tamsin Dunwoody-Kneafsey	Preseli Sir Benfro	Llafur
Sandy Mewies	Delyn	Llafur
Lynne Neagle	Tor-faen	Llafur
Owen John Thomas	Canol De Cymru	Plaid Cymru/Party of Wales
Gwenda Thomas	Castell-nedd	Llafur
Brynle Williams	Gogledd Cymru	Y Ceidwadwyr

Clerc	Andrew George
Dirprwy Glerc	Steve George
Y Cynghorydd Annibynnol ar Safonau	Richard Penn
Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd	Peter Jones

ATODIAD C

RHEOL SEFYDLOG 16 – Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Teitl a Chylch Gwaith

16.1 Bydd Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a fydd:

(i) yn ymchwilio i unrhyw gŵyn y cyfeirir ato gan y Llywydd fod Aelod heb gydymffurfio â rheol sefydlog 4 neu unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynghylch buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill yr Aelodau, yn adrodd ar y gŵyn honno ac, os bydd yn briodol, yn argymell y camau y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r gŵyn, neu fod un o Ysgrifenyddion y Cynulliad heb gydymffurfio â gofynion paragraff 2.8;

(ii) yn ymchwilio i unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Llywydd fod Aelod heb gydymffurfio ag unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynghylch safonau ymddygiad yr Aelodau neu'r canllawiau i'r Ysgrifenyddion y bydd y Cynulliad wedi'u cymeradwyo yn unol â pharagraff 2.7, yn adrodd ar y gŵyn honno ac, os bydd yn briodol, yn argymell y camau y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r gŵyn;

(iii) yn ystyried unrhyw fater o egwyddor ynglŷn ag ymddygiad yr Aelodau yn gyffredinol;

(iv) yn goruchwylio'r trefniadau ar gyfer llunio Cofrestr Buddiannau'r Aelodau, a ffurf a chynnwys y Gofrestr, a'r trefniadau ar gyfer cadw'r Gofrestr a sicrhau ei bod yn hygyrch; a

(v) yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar nifer y cwynion a wnaed i'r Llywydd o dan (i) a (ii) a'r camau a gymerwyd, ac ar ei gasgliadau yngly^n â safonau moesegol wrth gynnal busnes y Cynulliad.

Aelodaeth

16.2 Bydd y Cynulliad yn ethol Aelod i gadeirio'r Pwyllgor, ynghyd ag Aelodau eraill a etholir cyn belled ag y bo'n ymarferol i adlewyrchu cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad. Ni fydd y Llywydd yn aelod o'r Pwyllgor, ond bydd ganddo ef neu ganddi hi hawl i fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod Pwyllgor, neu i gyflwyno papurau iddo, er mwyn tynnu ei sylw at unrhyw ystyriaethau y mae'n ystyried yn briodol.

Cynghorydd Annibynnol

16.3 Bydd y Cynulliad yn penodi person nad yw'n Aelod o'r Cynulliad nac yn aelod o'i staff i roi cyngor a chymorth i'r Llywydd ar unrhyw fater ynglyn ag ymddygiad yr Aelodau; a gall y Pwyllgor, yn ogystal â phenodi ei gynghorydd ei hun fel y bo'n briodol o dan Reol Sefydlog 8.14, wahodd y sawl a benodir gan y Cynulliad i ymchwilio i faterion ffeithiol sy'n codi o unrhyw fater dan sylw.

Cyfarfodydd

16.4 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod cyn gynted ag y bo modd ar ôl i gŵyn gael ei chyflwyno iddo gan y Llywydd; ac ar adegau eraill yn ôl fel y bydd y cadeirydd yn ei gynnull.

16.5 Gall y Pwyllgor gyfarfod yn gyhoeddus neu'n breifat, ond wrth ystyried cwyn, bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat oni fydd yn penderfynu fel arall. Os bydd ef neu hi'n gofyn am hynny, caniateir i unrhyw Aelod sydd neu a all fod yn destun ymchwiliad gan y Pwyllgor gyflwyno sylwadau llafar neu ysgrifenedig iddo a gall person arall (a all gymryd rhan yn y trafodion gyda chaniatâd y cadeirydd) fod yn bresennol gydag ef neu hi mewn gwrandawiadau llafar.

Adroddiadau

16.6 Os bydd y Pwyllgor wedi ymchwilio i gŵyn sydd wedi'i chyflwyno iddo gan y Llywydd, bydd yn adrodd i'r Cynulliad cyn gynted ag y bo modd ar ôl cwblhau'r adroddiad ar yr ymchwiliad. Gall y Pwyllgor adrodd i'r Cynulliad ar faterion eraill o fewn ei gylch gwaith o bryd i'w gilydd.